# PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

**(Ystafelloedd Pwyllgor A/B - Canolfan Ddinesig Castell-nedd)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 6 Rhagfyr 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, W.F.Griffiths, J.Hale, D.Keogh a/ac S.A.Knoyle |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Roberts, A.Lewis, L.Walker, N.Headon a/ac N.Jones |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr E.V.Latham a/ac A.Wingrave |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref, 2019.

2. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

3. **CYFLWYNIAD AR DDIWEDDARIAD GWASTRAFF 2019**

Derbyniodd aelodau gyflwyniad ar Reoli Gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot a diweddariad amdano.

Mewn ymateb i ymholiadau'r aelodau, dywedodd swyddogion fod gwastraff bwyd yn cael ei osod ym miniau olwynion rhai preswylwyr o hyd. Esboniwyd bod angen i breswylwyr gynyddu faint o wastraff bwyd a ailgylchir yn y cynhwysydd cywir.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â monitro cynllun eithrio o'r cyfyngiad ar wastraff ar yr ochr ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer y preswylwyr a oedd yn cyflwyno cais am

eithriadau wedi cynyddu pan ddaeth y casgliadau gwastraff ar yr ochr i ben. Esboniodd swyddogion fod gan y Swyddogion Gwastraff Ochr gasgliadau unigol. Mae swyddogion yn monitro ac yn archwilio casgliadau gwastraff ac yn cysylltu â phreswylwyr sy'n cyflwyno gwastraff ochr anghywir i'w helpu i leihau swm y gwastraff a gyflwynir.

Dywedodd y swyddogion wrth yr aelodau fod gan Gastell-nedd Port Talbot un o'r timau gorfodi mwyaf llwyddiannus yng Nghymru ac y byddai'n parhau i fonitro lefelau tipio anghyfreithlon ledled y fwrdeistref sirol. Nodwyd y byddai adroddiad diweddaru am dipio anghyfreithlon yn cael ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar 17 Ionawr 2020.

Nodwyd pan gaiff y Strategaeth Wastraff Genedlaethol newydd ei chyhoeddi, byddai Llywodraeth Cymru'n ystyried gwastraff trydanol (deunyddiau prin) ar gyfer casgliad ymyl y stryd posib yn y dyfodol.

Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi pennu targed i Gymru ailgylchu 70% o'i gwastraff erbyn 2020, ac i fod yn ddiwastraff erbyn 2050.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2019/2020 - Perfformiad Chwarter 2 (1 Ebrill 2019 - 30 Medi 2019)

Derbyniodd y pwyllgor drosolwg o'r adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Chwarter 2.

Canmolodd yr aelodau'r gwaith da a wnaed gan y swyddogion.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

Cynnig i adnewyddu prydles cyfarpar darlledu radio ac antena i'r cyngor sydd wedi'u lleoli ar do'r tŵr dŵr yng Nghronfa Ddŵr y Cocyd, Abertawe

Derbyniodd y pwyllgor drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r lleoliad a ffefrir. Esboniodd swyddogion fod posibilrwydd y bydd tri safle ar gael, felly roedd dau leoliad dichonadwy arall ar gael.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

5. **EITEMAU BRYS**

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, codwyd y mater canlynol fel eitem frys i'w thrafod yn ystod cyfarfod heddiw yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

6. **ACCESS TO MEETING**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

7. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Cwlfert Ynysydarren - Caffael Tir/Gorfodi Draenio Tir

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**